# 2024 Adroddiad Bwlch Cyflog Ethnigrwydd




HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

## Rhagair

“Dyma ein trydedd flwyddyn o adrodd ar y bwlch cyflog ethnigrwydd ac rwy’n falch o gyhoeddi gostyngiad cyffredinol eleni. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn, mae llawer o waith i’w wneud o hyd.

Yn 2025 byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu ein cynrychiolaeth o swyddogion a staff lleiafrifoedd ethnig trwy ddulliau denu amrywiol a thrwy gefnogi datblygiad ein talent lleiafrifoedd ethnig.

Yn BTP, rydym wedi ymrwymo i ddod yn llu sy'n denu, yn cefnogi ac yn galluogi unigolion o gefndiroedd amrywiol i ffynnu. Mae adrodd ar gyflog ethnigrwydd a’r camau gweithredu dilynol yn hanfodol i gyflawni’r nod hwn.”



Lucy D’Orsi

CVO QPM

Prif Gwnstabl

## Pam rydym yn adrodd ar ein bwlch cyflog ethnigrwydd?

Yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, rydym wedi ymrwymo i adeiladu llu modern a chynhwysol lle mae ein pobl yn adlewyrchu’r gorau o’n cymunedau. Er nad oes gofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i gynnal neu gyhoeddi dadansoddiad o'n bwlch cyflog ethnigrwydd, rydym wedi ymrwymo o dan ein Cynllun Gweithredu Hil i ddadansoddi a rhannu ein data, gan fod yn atebol a chymryd camau priodol. Dyma ein trydydd adroddiad bwlch cyflog ethnigrwydd.

Yn absenoldeb fframwaith gorfodol ar gyfer adrodd ar fwlch cyflog ethnigrwydd, rydym wedi dewis ailadrodd y mesurau a ddefnyddir wrth adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, felly mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o dri mesur: y chwarteli cymedrig, canolrif a chyflog.

## Sut olwg sydd ar y data?

Yn 2024 roedd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cyflogi oddeutu 4,945 o swyddogion heddlu a staff. Mae rhai cyflogeion yn dewis peidio â datgelu eu hethnigrwydd ac fe’u dangosir fel ‘heb ei nodi’ drwy gydol yr adroddiad hwn.

Tabl 1

| **Cynrychiolaeth Ethnigrwydd Pob Cyflogai yn ôl Canran** | |
|---|---|
| Grŵp Ethnig | Canran |
| Gwyn | 81.5% |
| Asiaidd | 8.3% |
| Du | 4.0% |
| *Cymysg | 3.2% |
| Heb ei nodi | 3.0% |
| **Cyfanswm** | 100% |




*Grŵp cymysg = Gwyn a Du Caribïaidd, Gwyn a Du Affricanaidd, Gwyn ac Asiaidd, unrhyw gefndir Cymysg/Lluosog Ethnig arall

Mae rhaniad ethnigrwydd ein gweithlu wedi aros yr un fath i raddau helaeth â'r ffigurau a adroddwyd yn 2023. Mae cynrychiolaeth yn y grwpiau Asiaidd a Du wedi cynyddu 0.4% a 0.1% yn y drefn honno.

Tabl 2

| **Cymhariaeth Dadansoddiad o Ethnigrwydd Swyddogion 2023-2024** | | |
|---|---|---|
| **Grŵp Ethnig** | **2024** | **2023** |
| Gwyn | 85.9% | 86.7% |
| Asiaidd | 5.2% | 5.3% |
| Du | 2.4% | 2.4% |
| Cymysg | 3.0% | 2.8% |
| Heb ei nodi | 3.5% | 2.8% |
| *Cyfanswm Cynrychiolaeth Lleiafrifoedd Ethnig | 10.6% | 10.5% |

**Nid yw'n cynnwys y grŵp heb ei nodi

Yn 2024 mae cynrychiolaeth swyddogion lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu o 0.1% i 10.6%. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae'r rhan fwyaf o swyddogion BTP yn nodi eu bod yn Wyn. Gostyngodd cynrychiolaeth yn y grŵp Gwyn o 0.8% ac yn y grŵp Asiaidd o 0.1%; cynyddodd y grŵp Cymysg o 0.2%. Gwelsom gynnydd o 0.7% yn nifer y cyflogeion a ddewisodd beidio â datgelu eu hethnigrwydd Bydd mynd i'r afael â hynyn ffocws allweddol yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Tabl 3

| Dadansoddiad Ethnigrwydd Swyddogion o gymharu â lluoedd y Swyddfa Gartref | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **BTP** | | | **Lluoedd y Swyddfa Gartref** | | |
| Grŵp Ethnig | 2024 | 2023 | +/- % | 2024 | 2023 | +/-% |
| Gwyn | 85.9% | 86.7% | -0.8% | 91.6% | 91.6% | 0% |
| Asiaidd | 5.2% | 5.3% | -0.1% | | | 0% |
| Du | 2.4% | 2.4% | 0% | 1.3% | 1.3% | 0% |
| Cymysg | 3.0% | 2.8% | +0.2% | 2.6% | 3.3% | -0.7% |
| Grŵp ethnig arall | | | | 0.7% | ----- | ----- |
| Heb ei nodi | 3.5% | 2.8% | +0.7% | ----- | ----- | ----- |
| **Cyfanswm Cynrychiolaeth Lleiafrifoedd Ethnig | 10.6% | 10.5% | | 8.4% | 8.4% | |

Fel y dangosir yn nhabl 3, yn gyffredinol, mae cynrychiolaeth swyddogion lleiafrifoedd ethnig yn BTP (10.6%) yn parhau i fod yn uwch na chynrychiolaeth swyddogion cyfartalog yn lluoedd y Swyddfa Gartref, (sydd wedi aros ar 8.4 %).[1]

Tabl 4

| Ethnigrwydd Staff Dadansoddiad fesul blwyddyn | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2024** | | 2023 | |
| Grŵp Ethnig | Cyflogedig | % | % | +/-% ar y llynedd |
| Gwyn | 1343 | 73.8 | 73.7 | +0.1% (1267) |
| Asiaidd | 246 | 13.5 | 13.0 | +0.5% (222) |
| Du | 122 | 6.7 | 6.5 | +0.2% (112) |
| Cymysg | 67 | 3.7 | 4.2 | -0.5% (72) |

[1] Gweithlu'r heddlu, Cymru a Lloegr: 31 Mawrth 2024 - GOV.UK

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Heb ei nodi | 43 | 2.4 | 2.6 | -0.2% (45) |

Mae cynrychiolaeth gyffredinol wedi cynyddu ychydig o fewn y grŵp staff (0.2%) ac mae cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig uwch yn parhau yn y grŵp staff (23.9%) o gymharu â swyddogion (10.6%). O fewn hyn mae cynrychiolaeth cyflogeion Du ac Asiaidd wedi cynyddu, tra bod y grŵp Cymysg wedi lleihau. Mae cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn cymharu'n dda ag Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil[2]sy'n dangos cynrychiolaeth ar 16.6% yn 2024.Yn gadarnhaol, am yr ail flwyddyn mae mwy o bobl yn y grŵp staff yn nodi eu hethnigrwydd.

## Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig a chanolrifol - pob cyflogai

Tabl 5

| Cyfartaledd | Gwyn | Bwlch cyflog | Asiaidd | Bwlch cyflog | Du | Bwlch cyflog | Cymysg | Bwlch cyflog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd gymedrig (cyfartaledd) fesul awr** | £20.33 | 0% | £20.48 | -0.74% | £20.76 | -2.12% | £20.48 | -0.74% |
| **Cyfradd ganolrifol fesul awr** | £19.67 | 0% | £19.42 | 1.27% | £19.69 | -0.10% | £19.86 | -0.97% |

*Caiff y bwlch cyflog cymedrig a chanolrifol ei gyfrifo drwy gymharu'r bwlch cyflog fesul awr yn erbyn y grŵp Gwyn

[2]Bwletin ystadegol - Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil: 2024 - GOV.UK




Eleni, y grŵp Du sydd â'r gyfradd tâl cymedrig fesul awr uchaf a'r grŵp Gwyn sydd â'r gyfradd isaf. Nodir y gallai maint poblogaeth fawr y grŵp Gwyn effeithio ar y cyfrifiad tâl fesul awr cymedrig. Nodwyd hefyd yw'r gyfran uchel o ddechreuwyr newydd (421 o 525) a nododd eu bod yn Wyn ac a ymunodd ar ein rhengoedd/graddau isaf a allai fod wedi effeithio ar y gyfradd gyflog gymedrig.

## Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Cymedrol a Chanolrifol Swyddogion a Staff a Chyfradd Tâl yr Awr

Tabl 6

| | **Swyddogion benyw** | | **Swyddogion Gwryw** | | **Staff benyw** | | **Staff gwryw** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymedr %** | **Canolrif %** | **Cymedr %** | **Canolrif %** | **Cymedr %** | **Canolrif %** | **Cymedr %** | **Canolrif %** |
| Asiaid d | 3.09% (£21.00) | 7.46% (£19.86) | 2.33% (£20.93) | 4.45% (£20.63) | 7.27% (£19.64) | 6.65% (£18.64) | **0.19%** (£20.86) | **0% (£19.07)** |
| Du | 1.94% (£21.25) | 0.93% (£21.26) | **0% (£21.43)** | **0% (£21.59)** | 6.33% (£19.84 | 7.96% (£18.38) | **0% (£20.90)** | 1.31% (£18.82) |
| Cymysg | **0% (£21.67)** | **0% (£21.46)** | 4.01% (£20.57) | 5.70% (£20.36) | **0% (£21.18)** | **0% (£19.97)** | 11.34% (£18.53) | 4.40% (£18.23) |
| Gwyn | 6.60% (£20.24) | 7.46% (£19.86) | 4.53% (£20.46) | 8.01% (£19.86) | 6.76% (£19.83) | 8.66% (£18.24) | 1.82% (£20.52) | **0% (£19.07)** |

*mae'r ffigurau mewn print trwm yn dangos y gyfradd tâl fesul awr uchaf. Mae'r bwlch cyflog cymedrig a chanolrifol yn cael ei gyfrifo yn erbyn y gyfradd gyflog uchaf waeth beth fo'i ethnigrwydd.

Yn gyffredinol, roedd gan swyddogion benyw a staff yn y grŵp Cymysg y tâl cymedrig a chanolrifol fesul awr uchaf yn 2024; dylid nodi maint poblogaeth fach y grŵp ethnig hwn, sef 20 a 39 yn y drefn honno. Yn ogystal, mae tâl fesul awr o fewn y grŵp hwn yn cael ei ddosbarthu'n gyson heb unrhyw wyriadau sylweddol ar bennau isaf nac uwch y raddfa gyflog.

## Data Chwarteli

Rhennir y data tâl yn bedwar chwartel i bennu lle mae cyflogeion ar draws y grwpiau ethnig yn eistedd yn yr hierarchaeth gyflog.

Tabl 7 - **Cyfraddau Tâl Chwartel Pob Cyfraddau Tâl Chwartel Pob Cyflogai**

| **Categori Ethnig** | **Chwartel Uchaf – Ystod cyflog (£)** | **Chwartel Canol Uchaf – Ystod cyflog (£)** | **Chwartel Canol Isaf – Ystod cyflog (£)** | **Chwartel Isaf – Ystod cyflog (£)** |
|---|---|---|---|---|
| Asiaidd | 22.83– 46.04 | 19.42 – 22.83 | 16.68 – 19.42 | 10.42 – 16.68 |
| Du | 23.18 – 38.73 | 19.69 – 23.18 | 16.99 – 19.69 | 13.32 – 16.99 |
| Cymysg | 22.71– 37.68 | 19.86 – 22.71 | 16.77 – 19.86 | 10.64 – 16.77 |
| Gwyn | 22.80 – 75.33 | 19.67 – 22.80 | 16.47 – 19.67 | 9.83 – 16.47 |

Cyflogeion yn y grŵp Gwyn oedd â’r ystod cyflog uchaf yn y chwartel uchaf gydag uchafswm cyfradd tâl fesul awr o (£75.33) ar ôl cynlluniau aberthu cyflog, ac yna’r grŵp Asiaidd (£46.04), y grŵp Du (£38.73) ac yna grŵp Cymysg oedd â chyfradd fesul awr uchaf o £37.68. Mae hyn yn dangos bod mwy o gyflogeion yn y grŵp Gwyn ar rengoedd a graddau uwch.

## Taliadau bonws

Mae Rheoliadau'r Heddlu yn caniatáu i daliadau bonws gael eu gwneud i swyddogion. Mae gan BTP gydraddoldeb cyflog â lluoedd y Swyddfa Gartref ac mae'n cymhwyso'r un taliadau trwy'r polisi. Yn 2024, derbyniodd 670 o gyflogeion fonws, cynnydd o 7.3%; nid yw Prif Swyddogion yn gymwys i dderbyn bonysau. Telir taliadau bonws o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Bonws Gwneud Gwahaniaeth - mae swyddogion a staff yn gymwys ar gyfer y dyfarniadau hyn sy'n cydnabod gwaith neu gyfraniad eithriadol; mae taliadau'n amrywio o £25 i £500.
- Gradd PDR 1 - mae staff yn gymwys i gael dyfarniad o £500 os ydynt yn cyflawni gradd 1 yn eu hadolygiad datblygu perfformiad blynyddol.
- Taliadau targedig dros dro – gall swyddogion mewn swyddi sy'n anodd eu llenwi dderbyn taliad o hyd at £3,000. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer Hyfforddwyr Arfau Tanio y mae BTP yn defnyddio'r lwfans hwn, oherwydd prinder cenedlaethol o unigolion cymwys.

**Bwlch Bonws Ethnigrwydd Cymedrig Pob Cyflogai**

Tabl 8

| Taliadau bonws – pob cyflogai | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024 | | | | | 2023 | | | | |
| **Grŵp Ethnig** | **% bonysau a ddyfarnwyd** | **Cymedr (£)** | **% Bwlch**** | **Canolrif** | **% Bwlch** | **% bonysau a ddyfarnwyd** | **Cymedr (£)** | **% Bwlch**** | **Canolrif** | **% Bwlch** |
| Gwyn (578) | 86.27% | 388.06 | 0% | 500.00 | 0% | 83.41% | 518.34 | 0% | 500.00 | 0% |
| Asiaidd (42) | 6.27% | 458.33 | -18.11% | 500.00 | 0% | 8.37% | 387.98 | 25.15 | 500.00 | 0% |
| Du (20) | 2.98% | 295.00 | 23.98% | 250.00 | 50% | 3.54% | 404.55 | 21.95 | 500.00 | 0% |
| Cymysg (15) | 2.24% | 346.67 | 10.67% | 500.00 | 0% | 2.74% | 338.24 | | 500.00 | 0% |
| *Heb ei nodi (15) | 2.24% | 408.33 | -5.22% | 500.00 | 0% | | 829.17 | -37.49 | 500.00 | 0% |

** yn erbyn y grŵp Gwyn

Talwyd y taliad bonws cymedrig uchaf i'r grŵp Asiaidd. Y grŵp Du oedd â'r taliad bonws cymedrig a chanolrifol isaf o'r holl grwpiau ethnig ag anghymesuredd amlwg wrth ddyfarnu'r sgôr PDR a'r bonws uchaf, sy'n dangos nad ydym yn dyfarnu bonysau yn unol â chynrychiolaeth ar draws y lu. Gostyngodd canran y taliadau bonws i bob grŵp lleiafrif ethnig o gymharu â'r llynedd.

Tabl 9

| Taliadau bonws – math o gyflogai | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp ethnig** | **Swyddogion** | **% y cyflogedig** | **Staff** | **% y cyflogedig** |
| Gwyn | 250 | 9.31% (2684) | 310 | 23.08% (1343) |
| Asiaidd | | | 34 | 13.82% (246) |
| Du | 5 | 6.58% (76) | 15 | 12.30% (122) |
| Cymysg | 2 | 2.74% (73) | 13 | 19.40% (67) |
| Heb ei nodi | 10 | 9.26% (108) | 5 | 11.63% (43) |

Wrth edrych ar ddosbarthiad y taliadau bonws a ddyfarnwyd eleni, fe fu cynnydd yn nifer y taliadau bonws a ddyfarnwyd i swyddogion (40.90% o gymharu â 34.14% yn 2023) sy'n dangos bod mwy o swyddogion yn cael eu cydnabod am waith a chyfraniad rhagorol. Fe wnaeth mwy o swyddogion yn y grŵp Gwyn dderbyn bonws eleni (250 o gymharu â 190 y llynedd); i'r gwrthwyneb fe wnaeth llai o swyddogion lleiafrifoedd ethnig gael bonws; fodd bynnag, mae hyn yn unol â chynrychiolaeth ar draws y llu.

## Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am fwlch cyflog ethnigrwydd BTP?

Yn gyffredinol, mae bwlch cyflog cymedrig a chanolrifol yr holl grwpiau lleiafrif ethnig wedi lleihau eto eleni. Eleni, y grŵp Du a brofodd y gyfradd gyflog gymedrig uchaf fesul awr a'r grŵp Gwyn oedd â'r gyfradd isaf; mae maint y boblogaeth ynghyd ag ystod cyflog eang y grŵp Gwyn yn debygol o fod wedi effeithio ar hyn.

Mae cyflogeion gwyn yn parhau i fod â'r ystod cyflog uchaf yn y chwartel uchaf; mae 76% o rengoedd a graddau uwch yn cael eu llenwi gan gyflogeion Gwyn.Y gyfradd cyflog fesul awr uchaf ymhlith cyflogeion lleiafrifoedd ethnig yw £46.04 sy'n cynrychioli bwlch o 38.88% gyda'r grŵp Gwyn (£75.33).

Cyflogeion a nododd eu bod yn Asiaidd oedd â'r cyflog canolrif isaf fesul awr; o gymharu â grwpiau lleiafrif ethnig eraill, wrth edrych ar y niferoedd a gyflogir, er mai'r grŵp Asiaidd sydd â'r nifer uchaf o gyflogeion o leiafrifoedd ethnig, mae canran uwch, o gymharu â grwpiau lleiafrif ethnig eraill, yn ein rhengoedd a'n graddau isaf (grŵp Asiaidd 8.1%, grŵp Du 4.2%, grŵp cymysg 3.2%).

Y grŵp Du oedd yr unig grŵp i gael taliad bonws canolrifol is eleni, a oedd yn cynrychioli bwlch o 50%. Ymhlith y rhesymau posibl mae swyddogion yn anghymwys i dderbyn y bonws cyfradd PDR 1 o £500 a dyraniad anghymesur o fonysau i staff yn y grŵp Du.

Y gyfradd trosiant ar y cyd ar gyfer grwpiau lleiafrif ethnig oedd 10.6% a oedd yn uwch na'r grŵp Gwyn (9.8%) a chyfradd trosiant cyffredinol BTP (9.9%). Y tri phrif reswm dros adael oedd ymddiswyddo, ymddeol, a throsglwyddo i luoedd eraill. O ystyried bod datblygiad cyflog yn gysylltiedig â hyd gwasanaeth, gallai hyn fod wedi cyfrannu at y bwlch cyflog ethnigrwydd.

Tabl 10A

| **Swyddogion a gyflogir yn ôl rheng** | |
|---|---|
| **Rheng** | **% y swyddogion a gyflogir** |
| Cwnstabl | 75.17% |
| Rhingyll | 16.35% |
| Arolygydd | 5.70% |
| Prif Arolygydd | 1.72% |
| Uwcharolygydd | 0.70% |
| Prif Uwcharolygydd | 0.17% |
| Prif Swyddog | 0.20% |

Tabl 10B

| **Dosbarthiad ar draws grwpiau ethnig** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rheng** | **Grŵp gwyn** | **Cymysg grŵp** | **Asiaidd grŵp** | **Grŵp du** |
| Cwnstabl | 74.90% | 73.12% | 77.16% | 82.89% |
| Rhingyll | 16.50% | 19.35% | 14.20% | 11.84% |
| Arolygydd | 5.74% | 4.30% | | |
| Prif Arolygydd | 1.79% | 1.08% | 1.23% | 1.32% |
| Uwcharolygydd | | 2.15% | 0.00% | 1.32% |
| Prif Uwcharolygydd | 0.19% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |
| Prif Swyddog | 0.22% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |

Tabl 11A

| Staff a gyflogir yn ôl gradd | |
|---|---|
| **Gradd** | **% y staff a gyflogir** |
| A003 | 1.29 |
| A004 | 11.42 |
| A005 | 18.79 |
| A006 | 20.87 |
| B001 | 13.84 |
| B002 | 4.95 |
| B003 | 7.87 |
| B004 | 3.77 |
| C001 | 3.49 |
| C002 | 1.86 |
| C003 | 0.51 |
| C004 | 0.56 |
| PCSO | 10.69 |
| Cyfarwyddwr | 0.11 |

Tabl 11B

| Dosbarthiad ar draws grwpiau ethnig | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp gradd** | **Grŵp gwyn** | **Grŵp cymysg** | **Grŵp asiaidd** | **Grŵp du** |
| A003 | 1.04% | 1.49% | 0.41% | 5.74% |
| A004 | 10.65% | 8.96% | 13.01% | 18.03% |
| A005 | 17.05% | 26.87% | 22.76% | 25.41% |
| A006 | 21.59% | 19.40% | 18.70% | 18.03% |
| B001 | 14.67% | 7.46% | 13.41% | 9.02% |
| B002 | 4.84% | 5.97% | 6.10% | 3.28% |
| B003 | 7.89% | 5.97% | 7.72% | 9.02% |
| B004 | 4.17% | 5.97% | 1.63% | 2.46% |
| C001 | 3.28% | 4.48% | 3.66% | 4.92% |
| C002 | 1.79% | 2.99% | 2.03% | 1.64% |
| C003 | 88.89% | 0.00% | 11.11% | 0.00% |
| C004 | 80.00% | 0.00% | 10.00% | 10.00% |
| PCSO | 82.63% | 3.68% | 12.63% | 1.05% |
| Cyfarwyddwr | 100.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |

Mae Tablau 10-11 uchod yn dangos (A) y dadansoddiad canrannol o swyddogion a staff ar draws pob rheng/gradd a (B) dosbarthiad canrannol pob grŵp ethnig o fewn rhengoedd/graddau gwahanol.

## Croestoriadedd rhwng ethnigrwydd, rhywedd a chyflog

Wrth ystyried cyflog a natur groestoriadol rhywedd ac ethnigrwydd, gall y nifer fach o gyflogeion mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig wyro canfyddiadau h.y. y bwlch cyflog cymedrig ac mae’n mynnu bod materion croestoriadol yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain i sicrhau nad yw mentrau i leihau bylchau ar draws rhywedd ac ethnigrwydd yn mynd i’r cyfeiriad arall.

## Gweithredoedd a Llwyddiannau

Rydym wedi parhau i roi strategaethau ar waith i leihau'r bwlch cyflog ethnigrwydd ac rydym wedi ymrwymo i fynd ar drywydd hyn fel rhan o'n blaenoriaeth strategol i adeiladu llu modern a chynhwysol. Gweithgarwch newydd wedi'i gynnwys:

- Wedi diweddaru ein strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth a'r hyn y gellir ei gyflawni, gan annog pawb i chwarae eu rhan i wneud BTP yn lle modern a chynhwysol i weithio ynddo ac yn ailadrodd ein bwriad i gynyddu cynrychiolaeth a chadw amrywiaeth dalentog.
- Ail-gadarnhawyd ein hymrwymiad i Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu – Gwella Plismona i Bobl Dduon (PRAP), roedd hyn yn cynnwys datblygu hyb PRAP gyda deunyddiau dysgu i gynorthwyo rheolwyr mewn sgyrsiau gyda chydweithwyr am hil
- Cyflwynwyd Rhaglen Datblygu Talent Ddu wedi'i hanelu at ddatblygu arweinwyr du yn y dyfodol ar gyfer ein sefydliad.
  Fel rhan o weithgarwch allgymorth cymunedol i hysbysu ein llu ar faterion mewnol ac allanol, cyflwynwyd grŵp cynghori profiad byw heb ei fetio a chyflwynwyd sesiynau Meddwl am Ymuno â Ni ar gyfer pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- O'r ymgeiswyr posibl y cysylltodd ein tîm Gweithredu Cadarnhaol â nhw, mae 32% yn mynd ymlaen i sicrhau cynnig amodol llwyddiannus ar gyfer cyflogaeth yn BTP (Swyddogion a PCSOs)
- Mae ein Cynlluniau Plismona 2023-26 [3]yn nodi: Byddwn yn gwella cynrychiolaeth y gweithlu i ddod yn llu sy'n deall, ac yn darparu gwasanaeth effeithiol i'n cymunedau'.
- Mae ein hysbysebion recriwtio a deunyddiau cysylltiedig yn dathlu amrywiaeth ein gweithlu. Rydym wedi parhau i hyfforddi aelodau paneli mewn technegau asesu cynhwysol, yn ogystal â hyfforddiant tuedd anymwybodol; gofyniad gorfodol i gefnogi byrddau.
- Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau dyrchafu swyddogion i'w gwneud yn decach ac yn fwy cynhwysol
- Mae sgoriau PDR canol a diwedd blwyddyn yn parhau i gael eu monitro trwy lens amrywiaeth i amlygu unrhyw anghydraddoldebau a nodi camau unioni priodol
- Mae pob polisi pobl yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod tegwch a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn.

## Camau Nesaf

- Datblygu Grŵp Cynghori Gwybodaeth Ieuenctid (YIAG) i gefnogi safbwyntiau mewnol ac allanol ar ein prosesau o safbwynt person ifanc

[3] Cynlluniau Plismona BTPA

- Prosiect ymgysylltu cymunedol yn canolbwyntio ar wella perthnasoedd gyda chymunedau Du gyda gweledigaeth tymor hwy o recriwtio i IAG / craffu allanol a recriwtio i'r llu
- Lansio Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc i feithrin ymddiriedaeth, cynyddu diogelwch y cyhoedd, a gwella recriwtio o gymunedau amrywiol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn ystyried plismona yn ddewis gyrfa hygyrch, cynhwysol a dichonadwy.
- Lansio ein rhaglen Swyddog Cydlyniant Cymunedol i ymgysylltu â chymunedau amrywiol a phontio’r bwlch rhwng ein llu a chymunedau lleol i hybu ymddiriedaeth, dealltwriaeth a chydweithrediad.

HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

2024 Adroddiad Bwlch Cyflog Ethnigrwydd